diddorol hwyl

## Rhesymau

**Mae'n... / Maen nhw'n...**

styffnig, gyffrous, gymeriad, ansbaradigaethus (amazing), mynd ar fy nerfau, fusneslyd, fel coes brws, anniben, ddiog, hen geg, garedig dros ben, hael, hyfryd, annwyl

## Cyflwyniad personal

______ ydw i/Fy enw i ydy ______

Rydw i'n _____ (byw, gyda, oed, mynd)

Mae fy mhenblwydd i ar ___

Ces i fy ngeni yn ____ / *I was born in*

Es i i ___ / *I went*

Bydda i'n ___ / *I will*

Hoffwn i___ /*I would like*



## Cwestiynau

Faint o bobl sy yn dy deulu di? *How many people are in your family?*

Pwy ydyn nhw? *Who are they?*

Disgrifia dy fam. *Describe your mother*

Pryd mae dy benblwydd di? / Pryd cest ti dy eni?

Pryd mae penblwydd Mam? / Pryd cafodd Mam ei geni?

Oes brawd / chwaer gyda ti?

Beth mae e / hi'n gwneud?

Beth ydy hobiau Mam / Dad...?

Ydy ____ yn hoffi...? *Does _____like...?*

Beth ydy dy farn di am dy fam / frawd...?

## Geirfa

Mam - *mum*

Dad - *Dad*

Brawd - *Brother*

Chwaer - *Sister*

Wncwl - *Uncle*

Anti - *Auntie*

Llysfam - *stepmum*

Mamgu /Tadcu

Gŵr / Gwraig

## Mynegi Barn



Rydw i'n cytuno

Rydw i'n anghytuno / Dydw i ddim yn cytuno

## Cysyllteiriau

achos gyda

ond a/ac

# Y Teulu

## Patrymau

Rydw i'n hoffi / mwynhau / dwlu ar (love)

Fy hoff (fave) _____ydy _____ / Fy nghas (hate) _______ ydy

Dydw i ddim yn hoffi / mwynhau / dwlu ar

Yn fy marn i, mae _____ yn _______

Mae _______ yn hoffi / Dydy _______ ddim yn hoffi

Hoffwn i wisgo ________

## Bocs WAW!



hefyd, yn ogystal, dim gobaith caneri

heb os nac oni bai, ti off dy ben

yn bendant, mewn gwirionedd,

weithiau, fel rheol,

**GOLYGFA 10 13:15**

**ALLAN - GAREJ RHYS - DYDD**

*CARYS, WIL, RHYS*

RHYS YN CLOI'R GAREJ CYN IDDO FO A WIL DDECHRAU CERDDED AM Y STRYD. WRTH IDDYNT BARIO, BRYSIA CARYS ALLAN, OND CEISIA EDRYCH YN 'CWL', ER EI FOD O'N AMLWG FOD RHYWBETH AR EI MEDDWL. (COFIWN FOD RHYS DAL YN ISEL).

**CARYS**

Haia!

**WIL**

Iawn, Carys?

**CARYS**

Le y'ch chi'ch dou yn cael mynd ar brynhawn dydd Iau, de?

**WIL**

Dim ond piciad i'r caffi i nôl cinio sydyn...

**CARYS**

Aa, 'na neis!

RHYS A WIL YN YMWYBODOL FOD RHYWBETH YN OD.

**RHYS**

Ti'n... iawn?

**CARYS**

Odw... odw... ydi llyg'ed Wil yn iawn yw'r cwestiwn?!

**WIL**

Sori?

**CARYS**

O'dd gen ti lygad ddu ddim sbel yn ôl yn do'dd e? Wedi baglu medde ti..?

**RHYS**

Baglu? O'n i'n meddwl na'n chwarae rygbi ges di hi?





WIL YN CHWYS DOMEN WRTH DRIO ESBONIO.

**WIL**

Ia, y... baglu dros droed y scrum half... chydig yn embarassing i ddeud y gwir. Di'r hogia heb gau 'i cega am y peth...

**RHYS**

O, reit.

CARYS WEDI NODI ATEB ANGHYFFORDDUS WIL.

**CARYS**

Aa, wy'n siwr... ond falch fod e 'di gwella ta beth!

WIL YN AWYDDUS I DDIANC.

**WIL**

Diolch... ym... sa'well i ni fynd, Rhys... neu fydd amser cinio bron drosodd.. Tra Carys...

**RHYS**

Tara.

**CARYS**

Ie, hwyl! Joiwch!

RHYS A WIL YN GADAEL. ALLAN AR CARYS YN AMAU'N GRYF FOD BARRY WEDI PYNSHO WIL.

[1'10]